

CYNGOR CYMUNED PENTREFOEAL COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Dewi Evans

Pwyllgor Blynyddol nos Lun Mai 11eg 2015 am 7. 30 y.h.

Cofnodion

1. Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd
2. **Ymddiheuriadau:** Gwynfor Roberts
3. **Cofnodion Blynyddol 2014** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Paul Weston yn eilio.
4. **Materion yn codi:**
System Cyfrifon/rheolau - Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.
Polisi Cydraddoldeb:
 - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau i weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
 - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabledd. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn y cysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
 - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
 - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:** Roedd Warden y Ganolfan Rhiannon Williams yn bresennol a gofynnwyd oedd gan aelodau o'r Cyngor Cymuned awgrymiadau ar ba fath o weithgareddau y gall ei cynnwys yn rhaglen y Ganolfan i ddenu mwy o gynulleidfa .
6. **Mantolen Ariannol 2014-2015** - Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
 - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael pob peth mewn trefn.
 - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.
 - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.
 - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau**
 - a) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) Dywedodd mai un tŷ sydd heb ei osod ar hyn o bryd, hefyd bod angen Ymddiriedolwyr o ardal Cerrigydrudion.
 - b) Paul Weston (Pwyllgor Ganolfan) dim mwy i adrodd ond cefnogi beth oedd gan y Warden i ddweud.
 - c) Paul Weston (Foelas Cyf) werth parhau ond dim llawer o unedau wedi ei llenwi.
 - ch) Edmund Rees (Un Llais Cymru). Angen mwy o gefnogaeth i'r Gymdeithas dim llawer yn mynychu pwyllgorau.
 - d) Gari Jones (Llywodraethwyr) Arolwg yn mynd ymlaen yn yr ysgol r hyn o bryd. Yr ysgol ar dop y graff ac yn gwneud yn well na llawer ysgol arall. Rhaid cadw golwg manwl ar y cyllid.
8. **Penodi Swyddogion:-**
 - a) Cadeirydd - Paul Weston.
 - b) Is-gadeirydd - Alun Owen.
 - c) Elusen Ysbyty - Edmund Rees.
 - ch) Pwyllgor y Ganolfan - Paul Weston.
 - d) Foelas Cyf - Paul Weston.
 - dd) Un Llais Cymru - Edmund Rees.
 - e) Llywodraethwyr - Gari Jones.

9. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth i'r Cadeirydd newydd sef Paul Weston gan Dewi Evans a diolchodd i bawb am y gefnogaeth a gafodd a dymunodd yn dda i Paul Weston.
10. **Derbyniwyd** y Gadeiryddiaeth a diolchwyd i Dewi Evans am ei arweiniad a gobeithio cael yr un gefnogaeth.
11. **Unrhyw fater arall** - Dim.

Arwyddwyd _____
Paul Weston
Cadeirydd

Dyddiad _____
09.05.2016
